

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG
19 MEHEFIN 2017

ADRODDIAD CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R GYMRAEG
- I'W GYFLWYNO I GOMISIYNYDD Y GYMRAEG
2016 – 2017

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES MEWN
TRAFODAETH Â'R AELOD PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y
CYNGHORYDD G. HOPKINS

AWDURON: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
(01443 744111)

Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg
(01443 570002)

1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad yw cyflwyno copi o Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 2016 - 2017 i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i aelodau o Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg:

- 2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Argymell bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a'i fod ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf.
- 2.3 Gwneud trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol wedi cael ei gyhoeddi.

3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 158, 164 a 170 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i baratoi adroddiad ("adroddiad blynyddol") mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r canlynol:

- y safonau darparu gwasanaethau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau llunio polisïau roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw
- y safonau gweithredol roedd y Cyngor o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw yn ystod y flwyddyn dan sylw

4. CEFNDIR

4.1 Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016.

4.2 Y dyddiad cyntaf ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg oedd 30 Mawrth 2016. Am hynny, roedd adroddiad llynedd yn ymdrin â'r ddau ddiwrnod cyntaf o weithredu'r Safonau (sef, 30 a 31 Mawrth 2016.)

4.3 Mae adroddiad eleni yn rhoi gwybodaeth am y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu'r Safonau, ac yn wahanol i adroddiadau blynyddol blaenorol o dan Gynllun Cymraeg y Cyngor, lle roedd gofyn i ni eu cyflwyno yn ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg, mae hi, erbyn hyn, yn ofynnol i ni eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a sicrhau eu bod nhw ar gael ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor (sydd ar agor i'r cyhoedd) erbyn 30 Mehefin 2017 fan bellaf.

4.4 Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor o dan ddyletswydd statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.

4.5 Yn ogystal â chydymffurfio â'r Safonau uchod yn 3.1, rhaid i adroddiad blynyddol eleni gynnwys y canlynol:

- (1) *nifer y cwynion a gafodd eu derbyn yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'r canlynol: (i) darparu gwasanaethau (ii) llunio polisiâu (iii) safonau gweithredu yr oedd o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw*
- (2) *nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw*
- (3) *nifer yr aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (4) *canran yr aelodau o staff a gymerodd ran mewn cyrsiau hyfforddiant Cymraeg a gafodd eu cynnig yn ystod y flwyddyn dan sylw*
- (5) *nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu hysbysu yn ystod y flwyddyn lle - (i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol, (ii) roedd hi'n ofynnol dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl dechrau yn y swydd, (iii) roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu (iv) doedd dim angen sgiliau Cymraeg yn ystod y flwyddyn dan sylw.*

5. Camau Nesaf

- 5.1 Os bydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn penderfynu argymhell yr Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar gyfer ei gymeradwyo, bydd yn cael ei gyhoeddi a'i ddsbarthu a bydd cyhoedduswydd yn cael ei roi iddo yn unol â Safonau 158, 164 a 170.
- 5.2 Mae hi'n cael ei rhagweld y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn rhoi adborth ar yr adroddiad blynyddol, gydag argymhellion, yn ystod yr hydref.

6. GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

- 6.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

7. YMGYNGHORI

- 7.1 Doedd cynnal proses ymgynghori ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad yma, er i'r holl feysydd gwasanaeth gyfrannu data at yr adroddiad drwy eu prosesau hunanwerthuso.

8. GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL

- 8.1 Does dim goblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, mae'n bosibl bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw argymhellion gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ogystal â pharhau i weithredu'r 171 o Safonau. Gallai peidio â chydymffurfio â safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

9. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH BERTNASOL

- 9.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma.

10. CYSYLLTIADAU Â CHYNLLUN CORFFORAETHOL / BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL ERAILL Y CYNGOR

- 10.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawsdiriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2016.

11. CASGLIAD

- 11.1 Dyma'r ail adroddiad monitro blynyddol sydd wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor sy'n nodi sut mae e wedi cydymffurfio â'r Safonau statudol y mae dyletswydd arno i gydymffurfio â nhw o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er ei bod hi'n cael ei chydabod bod rhaid i ragor o waith gael ei wneud, mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd da sydd wedi cael ei wneud gan y meysydd gwasanaeth o ran gwreiddio trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg
- i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg
2016 – 2017

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mehefin 2017

CYNNWYS

Cyflwyniad	tudalen 1
Uned Gwasanaethau Cymraeg	tudalen 3
Cwynion	tudalen 5
Sgiliau Cymraeg Staff	tudalen 6
Hyfforddiant	tudalen 7
Llenwi Swyddi Gwag	tudalen 7
Rhagor o wybodaeth - manylion cyswllt	tudalen 8
Atodiad 1 – Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio	tudalen 9

CYFLWYNIAD: Safonau'r Gymraeg

Derbyniodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr Hysbysiad yn ymdrin â'r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i fodloni 171 o Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gafodd eu pennu gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd cais i herio 14 o'r Safonau ei gyflwyno i'r Comisiynydd ar 29 Mawrth 2016. Yn dilyn ystyriaeth ac ymgynghori pellach, penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na ddylid cymhwyso unrhyw gamau i 9 o'r Safonau oedd yn destun her ac y dylid cymhwyso amrywiad i 5 o'r Safonau oedd yn destun her. Cafodd yr Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 9 Medi 2016.

Gweledigaeth

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ymrwmo i greu amgylchedd sy'n annog eu trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gysylltu â'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Yn 2014, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn is-bwyllgor o Gabinet y Cyngor. Grŵp traws-bleidiau yw hwn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned. Mae'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn goruchwyllo datblygiadau strategol, yn ystyried adroddiadau gan adrannau perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, yn cyflwyno argymhellion i Gabinet y Cyngor ac yn monitro datblygiadau Cyngor cyfan. Mae cyfrifoldeb arno i asesu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg, gan fonitro cynnydd y Cyngor wrth iddo geisio bodloni Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â hynny, mae Gweithgor sy'n cynnwys Prif Swyddogion wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod y newidiadau gweithredol gofynnol yn cael eu gwireddu, ynghyd â dull cydweithiol a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.

Cysylltiadau â Pholisïau a Blaenoriaethau'r Cyngor: mae ymrwymïadau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg yn rhan o'i ddogfennau cynllunio gan gynnwys Cynllun Gwella 2015, Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Chynllun Corfforaethol 2016-2020. Mae blaenoriaethau'r Cyngor hefyd yn cael eu llywio gan ddeddfwriaeth ddiweddar sy'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a

Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2016, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i gryfhau'r Gymraeg. Mae'r Ddeddf gyntaf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod cenedlaethol. Un o'r rhain yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r ail Ddeddf yn gofyn i sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ystyried y gwasanaethau gofal a chymorth maen nhw'n eu darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg.

Rhoi Adroddiad

Mae eleni wedi parhau i fod yn flwyddyn o drawsnewid. Yn flaenorol, roedd Cynllun y Gymraeg yn cael ei weithredu, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond erbyn hyn, mae gofyn i ni weithredu yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Oherwydd yr amrywiadau sydd wedi'u cymhwyso i rai o'r Safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn proses apelio, mae'r adroddiad yma'n cynnwys y Safonau perthnasol yn swyddogol, y mae rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw.

Caiff yr adroddiad ei gyflwyno ar 30 Mehefin, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 ac (ynghyd ag Atodiad 1) yn nodi sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau atodol canlynol:

Safon Cyflenwi Gwasanaethau

Safon Gweithredu

Safon Llunio Polisi

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno data ar y dangosyddion gofynnol: hynny yw

- nifer y staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg (Safon 151)
- nifer y staff a gafodd hyfforddiant Cymraeg (Safon 152)
- canran y staff a gymerodd ran yn un o'r cyrsiau uchod (Safonau 128/152)
- nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi sy'n gofyn (i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y bydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol
- nifer y cwynion a gafodd y Cyngor

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Mae'r Cyngor yn cydnabod y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Safonau'r Gymraeg o ystyried y risgiau cysylltiedig o fethu â chydymffurfio. Mae'n cydnabod bod angen cefnogaeth y Cyngor cyfan i allu cynnig a hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg o'r man cyswllt cyntaf. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn Uned Gwasanaethau Cymraeg gadarn sy'n cynnwys 13 (2016/2017) o weithwyr. Mae'n gweithio i gefnogi holl wasanaethau'r Cyngor drwy wneud y canlynol:

- rhoi cyngor a chymorth i'r holl wasanaethau ynglŷn â'u dyletswyddau o dan y Safonau.
- cyfieithu dogfennau ar gyfer y cyhoedd
- nodi meysydd methu â chydymffurfio posibl
- atgyfeirio cwynion ffurfiol mewn perthynas â methu â chydymffurfio i Swyddog Cwynion y Cyngor
- cofnodi cwynion anffurfiol gan gwsmeriaid a pharatoi adroddiadau chwe-misol ar gyfer Gweithgor y Gymraeg
- adrodd ar ddatblygiadau i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a Gweithgor y Gymraeg
- hwyluso pwyllgorau staff, e.e. Gweithgor y Gymraeg (Y Gweithgor)
- bod yn bresennol yn y Fforwm Iaith
- cydweithio â sefydliadau Cymraeg y gymuned fel sy'n briodol

Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau, mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi meithrin perthynas gyda phob gwasanaeth er mwyn cefnogi'r broses o roi'r Safonau ar waith. Mae systemau monitro wedi'u sefydlu i sicrhau bod y gweithdrefnau a gaiff eu cyflwyno yn hwyluso'r deilliant rydyn ni'n bwriadu'i gyflawni - sef normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ac annog defnydd ohoni.

Mae'r Uned Gwasanaethau Cymraeg wedi diweddarau Polisi'r Gymraeg / Canllaw i Staff y Cyngor i adlewyrchu'r gofynion statudol newydd. Yn ogystal â hynny, sicrhawyd cyllid ychwanegol, yn groes i'r duedd, i alluogi ailstrwythuro a chynyddu gallu'r Uned Gyfieithu.

Parhawyd i roi cyfarwyddyd i Brif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaeth yn ystod 2016/2017 i sicrhau eu bod nhw'n deall sut bydd y Safonau statudol yn effeithio ar wasanaethau ac yn sgîl hynny, bod y gwasanaethau yn parhau i fynd i'r afael â gofynion a goblygiadau penodol. Yn ogystal â hynny, sicrhawyd cyllid ar gyfer rhoi hyfforddiant (sesiwn o 3 awr) i'r holl staff rheng flaen. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys deall y Safonau sy'n berthnasol i Staff y Gwasanaeth i Gwsmeriaid a sut mae'r rhain yn effeithio ar eu rôl, a phwysigrwydd cynnig gwasanaeth i

gwsmeriaid o safon uchel i bob cwsmer. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys sesiynau iaith, e.e. cyfarch a sgwrsio yn Gymraeg (syml). Bydd Swyddog yr Iaith Gymraeg hefyd yn parhau i roi cyflwyniadau.

Fe barhaon ni i baratoi a dosbarthu dogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys: *y llyfryn 'Cymraeg: Beth Sydd Wedi Newid? (What's Changed?) i staff (ar ffurf PDF) ar ryngrwyd fewnol y Cyngor, yn ogystal â dogfen Canllawiau Estynedig y Safonau a llyfryn TGCh 'Cymorth ar flaen eich bysedd' (Welsh @your fingertips) a matiau llygoden sy'n cynnwys cyfarchion Gymraeg.*

Yn rhan o ofynion y Cyngor i baratoi strategaeth 5 mlynedd o dan Safon 145, fe ymgynghoron ni â thrigolion Rhondda Cynon Taf i gasglu adborth ar eu blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau Cymraeg (Ebrill - Mehefin 2016). Yn ogystal â hynny, ymgynghoron ni â Menter Iaith, aelodau o'r Fforwm Iaith (Grŵp Strategol y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf), Uwch Dîm Arwain y Cyngor, gwasanaethau Cyngor mewnol ac Aelodau o'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg. Llywododd canlyniadau'r ymgynghoriad y strategaeth 5 mlynedd mewn cydweithrediad â Sbectrwm, sef, sefydliad sydd â phrofiad helaeth o gynllunio iaith; Menter Iaith ac aelodau o'r Fforwm Iaith, Gwasanaethau Cyngor ac Aelodau Etholedig.

Yn ogystal â hynny, sicrhodd yr Uned Gwasanaethau Cymraeg wasanaeth dau swyddog graddedig i ymgymryd â phrosiect ymchwil (parhaus) i hyrwyddo darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cymunedau lleol. Prif nodau'r prosiect yma yw:

- Edrych yn fanwl ar y lefel bresennol o wasanaethau Cymraeg a dwyieithog sy'n cael eu darparu gan y Rhaglen Trechu Tlodi, Cymunedau yn Gyntaf a chlybiau gwaith maen nhw'n eu comisiynu.
- Nodi bylchau yn sgiliau iaith Gymraeg y rheiny sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglenni, clybiau gwaith a gweithgareddau o'r fath ;
- Darparu argymhellion i noddwr y prosiect a all helpu i lywio strategaeth yr awdurdod a bodloni'r Safonau Cymraeg o fewn ei brosesau a'i weithdrefnau.

Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn 2017/2018 a fydd yn tynnu ar y dystiolaeth a'r data a gafodd eu casglu.

Gan adeiladu ar y berthynas iach rhwng yr Uned Gwasanaethau Cymraeg a meysydd gwasanaeth trawsbynciol eraill, cytunwyd y byddai gofyn i'r holl wasanaethau gynnwys datblygiadau

perthnasol yn eu Hadroddiadau Hunanarfarnu Blynyddol, oherwydd arwyddocâd y Safonau. Mae'r manylion sydd wedi'u nodi gan bob gwasanaeth i'w gweld yn Atodiad 1, yn unol â Safonau 158, 164 a 170.

CWYNION: SAFON 158(2) 164(2) 170(2)(d)


Derbynion ni'r cwynion canlynol yn 2016 a 2017:

Dyddiad y Gŵyn	Natur	Drwy	Deilliant/Ymateb
Gorffennaf 2016	Gwasanaethau Hamdden: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safonau 81 ac 84 y mae rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â nhw yn ôl y gyfraith.	Comisiynydd y Gymraeg	Parhaus, fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017. Safon 81: Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, y canfyddiad sydd wedi'i gynnig yw nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 81 yn yr achos yma, ar y sail bod y person sy'n cynnig y gwersi nofio yn Gymraeg ar ei ran yn hyrwyddo'r gwersi ac yn eu hysbysebu yn Gymraeg. Safon 84: Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, y canfyddiad sydd wedi'i gynnig yw nad yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu â chydymffurfio â Safon 84 yn yr achos yma, ar y sail nad yw'r Cyngor yn cynnig gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg ar sawl lefel, er bod gwersi nofio drwy gyfrwng y Saesneg yn cael eu cynnig ar y lefelau hynny. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn

			cynnig bod y Cyngor yn paratoi cynllun gweithredu a fydd yn datgan pa gamau y bydd yn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â safon 84 mewn perthynas â gwersi nofio.
Rhagfyr 2016	Gwasanaeth Pensiwn: Honiad o fethu â chydymffurfio â Safon 1	Comisiynydd y Gymraeg	Parhaus, fel roedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017. Cylch Gorchwyl sydd wedi'i gynnig yn dilyn ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg ynglŷn â'r diffyg cydymffurfio posibl. Derbyniwyd y Safonau ar 23 Mawrth 2017.

SGILIAU CYMRAEG Y STAFF: SAFON 170(2)(a)

Mae'r rhan yma'n nodi'n fras nifer y gweithwyr/deiliaid swyddi oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2016 - 2017 (Ebrill 2017). Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 151, yn seiliedig ar ofynion Safon 127.

Nifer sylfaenol y staff*	Lefel y gallu: 	Rhugl	%	Eithaf rhugl	%	Cyfan swm	%
14,495	Pob aelod o staff	800	5.52	395	2.73	1,195	8.25
8,074	Staff mewn ysgolion	564	6.99	327	4.05	891	11.04
6,421	Staff sydd ddim mewn ysgolion	236	3.68	68	1.06	304	4.74

* Dydy'r nifer yma ddim yn cynrychioli nifer y gweithwyr - mae'n cynnwys cyflogaeth luosog, hynny yw, mae un gweithwr wedi'i gyfrif ar gyfer

pob swydd sydd gydag ef. Mae'n cynnwys gweithwyr achlysurol hefyd

HYFFORDDIANT AR GYFER STAFF: SAFON 170 (2) b+c

Cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu rhwng 2016 a 2017: Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 152, yn seiliedig ar ofynion Safon 128.

Recriwtio a hysbysebu.

Mae un sesiwn wyneb yn wyneb wedi cael ei chynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rheoli Cyflawniad (Perfformiad)

Mae un sesiwn wyneb yn wyneb wedi cael ei chynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gweithdrefnau Cwynion a Disgyblu - dim cyrsiau wedi cael eu darparu

Cyrsiau ymsefydlu - mae un sesiwn ymsefydlu wedi cael ei chynnal ar gyfer graddedigion a phrentisiaid. Doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymdrin â'r cyhoedd - mae un cwrs gwasanaethau i gwsmeriaid wedi cael ei gynnal ers mis Medi - doedd dim un o'r cynrychiolwyr yn gofyn am y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Iechyd a Diogelwch - does dim hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi cael ei ddarparu.

LLENWI SWYDDI GWAG: SAFON 170 (ch)

Rhwng 2016 a 2107, cafodd y swyddi canlynol eu hysbysebu, a chafodd ei nodi bod angen sgiliau Cymraeg ar eu cyfer. Mae'r ffigurau yma'n seiliedig ar y cofnodion sy'n cael eu cadw yn unol â Safon 154, yn seiliedig ar ofynion Safon 136.

Sgiliau Cymraeg	Angen dysgu	0
Sgiliau Cymraeg	Dim gofyn amdany nhw	85
Sgiliau Cymraeg	Dymunol	250

Sgiliau Cymraeg	Hanfodol	11
-----------------	----------	----

Rhagor o wybodaeth:

Uned Gwasanaethau Cymraeg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Pafiliwn A

Cwm Clydach

Tonypandy

Rhondda Cynon Taf

CF40 2XX

Ffôn: 01443 570001

Atodiad 1

Sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio

Mae'r canlynol yn nodi manylion ar sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau perthnasol yn ystod 16/17 ar sail Hunanasesiadau Gwasanaethau Unigol.

Cymunedau a Ffyniant

Ymgwymerodd Menter Iaith ag adolygiad i edrych yn fanwl ar y gwasanaethau iaith Gymraeg a dwyieithog sy'n cael eu darparu gan y tair rhaglen Trechu Tlodi, sef, Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion yr adroddiad. Mae hyn yn cynnwys:

Pennu swyddog dynodedig i helpu i roi dull strategol ar waith wrth gynllunio a darparu gwasanaethau yn y tair rhaglen.

Cynnal archwiliad o fedrau a gallu'r staff mewn perthynas â'r Gymraeg.

Arwyddion dwyieithog a deunyddiau hyrwyddo/cyhoeddusrwydd - mae pob swyddfa ag arwydd dwyieithog erbyn hyn.

Canllawiau arfer da wrth gysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau dros y ffôn - yn ystod mis Awst a mis Medi 2016, cafodd yr holl staff Hyfforddiant i Dderbynwyr.

Mae gan bob aelod o staff lofnod e-bost corfforaethol dwyieithog a mynediad at y ddogfen 'Cymraeg. Beth sydd wedi newid?' erbyn hyn.

Mae sefydlu carfan comisiynu sengl, yn rhan o'r gwasanaeth Cymunedau a Ffyniant, yn sicrhau bod gofynion Safonau'r Gymraeg yn cael eu gwreiddio yn y contractau sy'n cael eu comisiynu gan y gwasanaeth. Mae Swyddogion Cydymffurfio a Monitro wedi cael eu penodi i'r garfan i sicrhau bod partneriaid yn dilyn y gofyniad yma.

Ar hyn o bryd, mae adolygiad o'r holl waith sy'n cael ei gomisiynu yn cael ei gynnal gyda ffocws allweddol ar y gofynion mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd canfyddiadau'r gwaith yma'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

Gwasanaeth Tai Cymunedol

Yn y gwasanaeth yma, mae 5 o siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae dau aelod o staff yn dysgu Cymraeg hefyd. Maen nhw wedi cael amser allan o'r swyddfa i fynd i ddsbarthiadau Cymraeg ac mae'r gwasanaeth wedi ariannu hynny.

Rydyn ni wedi sicrhau bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â gofynion Safonau'r Gymraeg mewn cyfarfodydd carfan ac maen nhw wedi cael eu cyfeirio at yr hyfforddiant sydd ar gael drwy'r

fewnrwyd. Mae Arweinwyr Carfan wedi cael y dasg o sicrhau bod y deunydd darllen sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn cael ei gyfieithu.

Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei chasglu, er enghraifft, ffurflen gais ar gyfer tai, yna, rydyn ni'n gofyn beth yw'r dewis iaith. Mae pob aelod o staff yn ateb y ffôn yn Gymraeg ac mae Cymraeg yn cael ei siarad yn aml yn y swyddfa ac mae hynny'n cael ei annog.

Gwasanaethau i Oedolion

Mae gwaith wedi parhau yn 2015/16 mewn perthynas â rhoi'r cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' ar waith. Cafodd y cynllun yma ei gyflwyno yn dilyn cyflwyno fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae cynnydd da yn cael ei wneud yn y Gwasanaethau i Oedolion wrth i ni barhau i symud tuag at fod yn wasanaeth 'cynnig gweithredol', lle rydyn ni'n symud y cyfrifoldeb yn gyfan gwbl oddi ar ddefnyddwyr i ofyn am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg - mae'r gwasanaethau yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnig erbyn hyn.

Mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn cynnig y Gymraeg yn iaith cyfathrebu i bobl sy'n ffonio'r llinell 'Ymateb ar Unwaith' - maen nhw'n cael y cyfle i ddewis yr opsiwn Cymraeg neu'r opsiwn Saesneg. Os yw'r opsiwn Cymraeg yn cael ei ddewis, mae'r galwr yn cael ei ddargyfeirio i siaradwr Cymraeg. Mae modd datblygu a chefnogi'r cynnig yma drwy wasanaethau tymor byr a thymor hir.

Yn 2015/16, fe ddiwygion ni ein systemau gwybodaeth er mwyn i ni allu cofnodi/adlewyrchu dymuniadau defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â chyfathrebu ar lafar neu'n ysgrifenedig. Rydyn ni wedi cysylltu â siaradwyr Cymraeg sy'n hysbys i ni er mwyn adolygu eu gofynion.

Rydyn ni wedi parhau i godi a hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith ymhlith ein staff i gyd. Rydyn ni'n annog staff i ymgymryd â chysiau Cymraeg a hyfforddiant gloywi (ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y gweithle) ac yn rhoi'r cyfle iddyn nhw wneud hynny.

Mae holl wybodaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer y cyhoedd yn cael ei chyfieithu, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor a gwefan DEWIS. Mae posteri 'Welsh on the Wall' wedi cael eu dosbarthu i'n cartrefi gofal. Maen nhw'n dangos cyfarchion ac ymadroddion allweddol. Mae'r rhain yn cael eu harddangos yn swyddfeydd y cartrefi.

Bydd 'Fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol 2016-19' yn cael ei fabwysiadu a bydd camau gweithredu sy'n deillio o hynny yn diweddarau ein cynllun gweithredu 'Mwy na Geiriau' a byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar ddeall gofynion ein defnyddwyr gwasanaeth o ran y Gymraeg.

Gwasanaethau i Oedolion: Trawsnewid

Rhan 1

Mae pob ffrwd waith o fewn y cynllun gweithredu rhanbarthol yn rheoli ei gofynion ei hun o ran cyfieithu unrhyw ddeunydd ar gyfer y cyhoedd i'r Gymraeg (e.e. yr ymgynghoriad cyhoeddus).

Bydd y dogfennau ffurfiol sy'n deillio o'r gwaith rydyn ni'n ymgymryd ag ef yn y cynllun, i gyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg (e.e. datganiad o fwriad ar gyfer pobl hŷn, y strategaeth cynhalwyr (gofalwyr) ac ati, yr holl ddeunydd ymgysylltu / wedi'i gyhoeddi).

Rhan 2

Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Dangosodd Data Gweithlu a gafodd eu casglu ym mis Rhagfyr 2015 bod 157 o weithwyr cymdeithasol ar draws yr holl ddarparwyr partner, yn cydnabod meistrolaeth (unrhyw lefel) ar yr iaith Gymraeg. O fewn yr Awdurdod Lleol, mae 102 o aelodau o staff (uwch reolwyr a staff gwaith cymdeithasol yn bennaf) wedi'u nodi yn unigolion sy'n ddigon hyderus i weithio gyda'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob cyhoeddiad, gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant, yn ddwyieithog erbyn hyn.

Mae pob aelod o staff yn gwybod am y gofynion o ran yr iaith Gymraeg a sut bydd hyn yn effeithio ar ei swyddogaeth a'i faes gwasanaeth.

Prynu a Chomisiynu

Mae'r fframwaith monitro contractau yn cadw gwylidwriaeth gyson ar gydymffurfiaeth pob darparwr â Mesur y Gymraeg.

Mae'r garfan yn gwybod bod siaradwr Cymraeg yn ei phlith a fydd yn gallu ymdrin ag unrhyw ymholiadau yn Gymraeg.

Mae gwersi Cymraeg yn cael eu cynnig i bob gweithiwr, ac mae hyn yn cael ei hysbysebu trwy gylchlythyrau e-bost.

Gwasanaeth Gwella Gwasanaethau a Hawliau Lles

Mae gwasanaethau rheng flaen sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg ac mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau o'r fath yn ôl yr angen. Mae defnyddwyr gwasanaeth sydd yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu hamlygu yn system SWIFT. Hyd yma, does neb wedi gofyn am gyfathrebu yn Gymraeg.

Mae ein holl ddeunydd sydd wedi'i baratoi ar gyfer aelodau o'r cyhoedd yn cynnwys cyfieithiad i'r Gymraeg ac mae'r garfan cwynion yn ei gwneud hi'n bosibl i'w hachosion gael eu clywed yn Gymraeg os oes angen.

Hamdden, Parciau a Phrofedigaethau

Gwasanaethau Cofrestru a Phrofedigaethau

Mae'r gwasanaethau yn rhoi'r cyfle i gynnal seremonïau priodas a sifil yn Gymraeg.

Mae'r holl staff rheng flaen wedi cael hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae'n ofynnol i staff newydd ymgymryd â hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mae ceisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael eu cofnodi ar gyfer dadansoddi tueddiadau.

Mae newidiadau yn y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn cynnwys y Gymraeg ym mhob ystyriaeth.

Mae'r systemau ffôn wedi cael eu gwella ar gyfer cyhoeddiadau dwyieithog.

Gwasanaethau Hamdden

O safbwynt darparu gwybodaeth, mae safleoedd hamdden yn cyfrannu'n dda er mwyn bodloni meini prawf Mesur y Gymraeg.

Mae rhaglen o ddiweddariadau wedi dechrau ar gyfer arwyddion cyfeirio yn y canolfannau.

Mae'r holl gyfleusterau yn cael eu diweddarau ac mae gwaith adeiladu a datblygu yn cael ei wneud.

Mae'r holl daflenni, posteri, baneri ac ati, yn cael eu darparu gan garfan marchnata'r Cyngor ac mae'r rhain yn gwbl ddwyieithog ac yn bodloni'r meini prawf.

Mae pob aelod o staff wedi ymgymryd â sesiynau hyfforddiant Cymraeg ac yn gwybod am ei gyfrifoldebau o dan y Mesur.

Mae pob contract caffael diweddar wedi gofyn i ddarpar gyflenwyr i sicrhau bod unrhyw wybodaeth offer ffitrwydd ar gael yn Gymraeg, er mwyn i gwsmeriaid wneud dewis gwybodus wrth ddefnyddio'r offer.

Gwasanaethau i Blant

Mae'r Gwasanaethau i Blant yn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg sylfaenol. Mae pob aelod o staff sy'n rhan o'r Gwasanaethau i Blant yn gwybod am y gofynion o ran yr iaith Gymraeg a sut mae hyn yn effeithio ar ei swyddogaeth a'i faes gwasanaeth. Mae gwasanaethau rheng flaen sy'n ymdrin yn uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth yn cynnig cyfathrebu yn Gymraeg ac

mae trefniadau wedi cael eu gwneud gyda siaradwyr Cymraeg sy'n rhan o'r gwasanaeth i ymdrin ag ymholiadau o'r fath yn ôl yr angen. Mae defnyddwyr gwasanaeth sydd yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu hamlygu yn system SWIFT.

Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant fydd yn eu galluogi i siarad Cymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol wedi cael ei rhoi i reolwyr mewn cyfarfodydd ac maen nhw wedi ymgymryd â modiwlau e-ddysgu mewn perthynas â mesurau'r Gymraeg. Mae gwybodaeth berthnasol ac unrhyw ddiweddariadau wedi cael eu rhoi i'r staff mewn cyfarfodydd carfan.

Mae gwefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf a gwefan Plant sy'n Derbyn Gofal yn ddwyieithog.

Mae unrhyw ddeunydd darllen ynglŷn â Phlant sy'n Derbyn Gofal ac Amddiffyn Plant ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Mae'r holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog.

Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Diogelwch y Gymuned

Ers y gwerthusiad gwasanaeth olaf, rydyn ni wedi cymryd camau i sicrhau:

bod staff rheng flaen sy'n ateb y ffôn a staff derbynfeydd yn cael hyfforddiant.

bod hyfforddiant Cymraeg i Ddechreuwyr yn cael ei hyrwyddo ymhlith carfanau sydd ddim â digon o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd.

bod ffurflenni ac ati, sy'n cael eu defnyddio i gyfathrebu â busnesau, yn ddwyieithog.

bod swyddogion sydd yn hyfedr yn y Gymraeg o fewn y gwasanaeth, ac mae nifer ohonyn nhw yn hapus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith ac wedi gwneud hynny.

ein bod ni'n mynd ati i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau iaith pobl, a bydd hynny'n cael ei gofnodi ar fas data Flare. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n cynnig anfon llythyrau yn Gymraeg os oes angen.

Os yw'n cael ei nodi ar gynlluniau hyfforddiant unigol bod angen hyfforddiant Cymraeg, mae Uwch Reolwyr yn rhoi Blaenoriaeth 1 i hyn yn y gwerthusiad o anghenion hyfforddiant.

Yn rhan o gytundeb gwasanaeth Safonau Masnach gyda TS Broadcast, mae taflenni gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr a busnesau yn cael eu huwchlwytho'n awtomatig i'r rhyngwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Gofal i Gwsmeriaid

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynrychioli ar weithgor y swyddog iaith Gymraeg. Darparodd ymateb manwl i Fesur y Gymraeg ac mae'n cael ei gynnwys yn nhrefniadau monitro'r cynllun gweithredu corfforaethol.

Gwasanaethau Rhoi Gwybodaeth (Canolfan Alwadau a Chanolfannau iBobUn)

Mae unigolion sy'n ffonio'r Ganolfan Alwadau yn cael eu cyfarch yn Gymraeg mewn modd sydd ddim yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae pob rhif sydd wedi'i gyhoeddi yn cynnig cyfarchiad dwyieithog ac opsiwn 'Pwyswch 1 am y Gymraeg'. Hyd yma, mae 0.4% o gwsmeriaid wedi dewis yr opsiwn yma.

Mae 14% o ymgynghorwyr sy'n ateb y ffôn yn ystod y dydd yn y Ganolfan Alwadau yn siarad Cymraeg. Yn ystod Ch. 1 a 2 eleni, mae siaradwr Cymraeg wedi bod ar gael 92.7% o'r amser. Mae hyn yn cael ei olrhain ar bob adeg.

Does dim negeseuon awtomatig ar gyfer galwadau i'r 'hen' switsfyrddau (dydy'r rhif yma ddim yn cael ei gyhoeddi erbyn hyn) ond mae galwyr yn cael eu cyfarch yn ddwyieithog, ac mae pobl sydd am gyfathrebu yn Gymraeg yn cael eu trosglwyddo i'r wifren iaith Gymraeg.

Mae apwyntiadau iBobUn yn cael eu cynnig yn Gymraeg ar yr adeg trefnu.

Gwefan

Mae gan y wefan 'ragdudalen' fel y gall unrhyw ddefnyddiwr ddewis Cymraeg neu Saesneg ar y dudalen lanio, ac o fewn unrhyw dudalen, drwy ddefnyddio'r botwm 'Cymraeg'.

Mae'r safle a'r cynnwys yn cael eu datblygu gyda chymorth Gwasanaethau'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod cynnwys a phrosesau gwefan y Cyngor yn bodloni'r Safonau Cymraeg newydd.

Mae INFORM hefyd wedi cael ei datblygu i gefnogi gwasanaethau gwe dwyieithog er bod y cynnwys yn cael ei reoli mewn man arall (Cyfathrebu a Marchnata).

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Mae TGCh yn cefnogi darparu gwasanaethau yn Gymraeg yn y Cyngor, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Ac yntau'n wasanaeth cymorth, dydy TGCh ddim yn cefnogi darparu'r iaith Gymraeg ar gyfer y cyhoedd yn uniongyrchol. Yn wahanol i lawer o Awdurdodau Lleol eraill, dydy'r gwasanaeth ddim yn gyfrifol am (nac yn berchen ar) Wefan y Cyngor na'r sianeli Cyfryngau Cymdeithasol eraill a fyddai'n darparu cynnwys neu wybodaeth ar gyfer y cyhoedd yn y ddwy iaith.

Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn gyfarwydd â Mesur y Gymraeg ac yn cydymffurfio ag ef.

Mae'n darparu'r cymorth canlynol ar gyfer gwasanaethau mewnol:

Troedynnau e-bost dwyieithog, gwas 'allan o'r swyddfa'

Negeseuon e-bost cyffredinol i bob aelod o staff, aelodau ac ysgolion yn ddwyieithog.

Gosod offer rhyngwyneb iaith Gymraeg drwy MS Office (Cysgeir) i holl staff y Cyngor. Yn ogystal â hyn,

Cynnig offer meddalwedd cyfieithu iaith Gymraeg (Cysill) y mae modd i staff ei defnyddio os oes angen.

Cynnig cymorth Desg Wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg

Cynorthwyo Ysgolion Cyfrwng Cymraeg i ddarparu TGCh

Cefnogi prynu systemau a meddalwedd iaith Gymraeg

Gofal y Strydoedd a Gwastraff

Mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Safonau Iaith o ran dogfennau polisi, gohebiaeth a chyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd.

Mae llythyrau, taflenni a phosteri safonol yn cael eu paratoi yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni hefyd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ar ein gwefan yn ddwyieithog hefyd ac ers y cyfarfod diwethaf, rydyn ni wedi edrych ar ein tudalennau gwe i sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn cael ei rhoi.

Rydyn ni'n hysbysu staff newydd o'n gofynion gwasanaeth o dan Fesur yr Iaith Gymraeg. Ers yr asesiad diwethaf, rydyn ni wedi parhau i nodi ac annog staff sy'n awyddus i gael hyfforddiant gloywi neu sydd am ddechrau cwrs Cymraeg llafar i ddechreuwr. Rydyn ni wedi diweddarau ein ffeiliau hyfforddiant gan nodi pa aelodau o staff yn y gwasanaeth sy'n rhugl ac yn rhannol rugl wrth sgwrsio yn Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant ac yn sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi'n briodol ac yn gyfarwydd â pholisïau'r Cyngor. Er mwyn sicrhau parhad o ran darparu gwasanaethau, mae dulliau amgen o gyflwyno hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn cael eu hystyried, er enghraifft, hyfforddiant bore bach ar gyfer gweithredwyr gwastraff a glanhau mewn depos.

Trafnidiaeth

Mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth wedi croesawu'r Safonau Iaith newydd ac yn unol â hynny, mae wedi ehangu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni wedi hysbysu'r staff o ofynion y Safonau Iaith newydd ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau. Mae 31.5% o'r disgyblion (3,619) sy'n cael eu cludo i'r ysgol yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Oherwydd hyn, yn draddodiadol, mae'r gwasanaeth wedi paratoi'i bolisïau a'i lythyron safonol yn y ddwy iaith, ond, ers mis Ebrill 2016, rydyn ni wedi ymdrin â chwe ymholiad dros y ffôn yn Gymraeg. Mae tri aelod o staff yn y gwasanaeth â meistrolaeth resymol ar y Gymraeg, ar lafar

ac yn ysgrifenedig. Mae pump wedi cael hyfforddiant cychwynnol sylfaenol ac mae nifer wedi nodi eu bod nhw'n awyddus i ddysgu Cymraeg.

Mae ei amserlenni bws ochr y ffordd yn ddwyieithog, ynghyd â'r holl ddeunydd sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r gwasanaeth ar wefan y Cyngor. Dydyn ni ddim wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â defnydd y gwasanaeth o'r iaith Gymraeg. Ystyriwyd y byddai'r cynigion i godi tâl am ddefnyddio elfennau disgresiynol y Polisi Cludiant Ysgol a'r refersiwn dilynol i'r polisi blaenorol, ill dau, yn cael effaith sylweddol ar y gymuned iaith Gymraeg, ond ystyriodd yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb y byddai'r effaith yn sylweddol cadarnhaol oherwydd ei fod e'n sicrhau y byddai gwasanaeth cludiant ysgol yn cael ei ddarparu o hyd mewn modd cyson a theg.

Gwasanaethau'r Celfyddydau

Mae'r gwasanaeth yn cyflwyno achlysuron iaith Gymraeg yn rhan o'i raglen o ddigwyddiadau er enghraifft, 'Welsh is Magic', sef cynhyrchiad Cymraeg sy'n anelu at gynyddu medrau iaith Gymraeg mewn ysgolion cynradd Saesneg.

Mae nifer o ddramâu Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys 'Dau' a 'The Good Earth' wedi cael eu perfformio yn Theatr y Parc a'r Dâr ac yng Ngarth Olwg. Mae Theatrau RhCT yn parhau i gefnogi Garth Olwg gyda'i raglen o ddigwyddiadau proffesiynol er mwyn sicrhau bod darpariaeth celfyddydau yn parhau i fodoli yn ardal Pontypridd yn dilyn trosglwyddo asedau cymunedol Gwasanaeth Celf y Miwni. Mae'r lleoliad yma hefyd yn galluogi cynyrchiadau Cymraeg y gwasanaeth i gysylltu â chynulleidfa mor eang ag sy'n bosibl.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod trigolion yn gallu cael mynediad at wybodaeth marchnata yn eu dewis iaith. Mae fersiwn Cymraeg o'r llyfryn 'Live' (sef 'Yn Fyw') yn cael ei baratoi ochr yn ochr â'r fersiwn Saesneg. Mae'r ddau fersiwn yn cael eu harddangos ar silffoedd fel eu bod nhw yr un mor amlwg â'i gilydd.

Mae'r arwyddion yn y theatrau yn cael eu darparu mewn fformat sy'n cydymffurfio â'r Safonau. Mae cyfrifon Facebook a Twitter y gwasanaeth yn cael eu diweddarau yn y ddwy iaith fel arfer drwy gynllunio'r negeseuon ymlaen llaw a rhoi amser i'w cael nhw wedi'u cyfieithu. Mae cyfarchiad ffôn y swyddfa docynnau yn ddwyieithog ac mae holl staff y swyddfa docynnau wedi cael hyfforddiant Cymraeg sydd wedi'i ddarparu gan y Cyngor. Mae'r gwasanaeth wrthi'n gweithio ar ddatblygu gwefan ddwyieithog newydd a dylai hon fod yn fyw yn y Flwyddyn Newydd.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn ei garfanau ac ar draws ei lefelau amrywiol. Mae staff eraill yn cael eu hannog i fanteisio ar yr hyfforddiant Cymraeg sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor.

Mae Swyddogion Datblygu'r Diwydiant Celfyddydau a Chreadigol yn cyflogi nifer o hwyluswyr gweithdy sy'n siarad Cymraeg ac felly mae gweithdai celfyddydau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu yn rhan o'i raglen.

Mae'r gwasanaeth yn awyddus i sicrhau bod staff blaen tŷ a staff y bar yn ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg i sicrhau bod y cwsmeriaid yn cael eu croesawu i'r theatrau yn y ddwy iaith. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ystyried anghenion ieithyddol yn rhan o'i brosesau recriwtio.

Adnoddau Dynol

Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg - Adnoddau Dynol

Mae gweithgor a chynllun gweithredu wedi cael eu sefydlu i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg. Mae'r polisiau wedi cael eu hadolygu ac yn cael eu cyfieithu. Y camau nesaf yw datblygu strategaeth cyfathrebu ar gyfer rhannu'r polisiau a sefydlu mecanwaith monitro ar gyfer adolygu'r defnydd o'r polisiau.

Dydy Ffynhonnell RhCT (RCT Source) ddim yn cynnig yr e-ddysgu i gyd yn Gymraeg. Mae rhai modiwlau wedi cael eu cyfieithu, ond does dim digon o staff i droi'r wybodaeth yn ddogfennau Word ar gyfer y Garfan Cyfieithu, felly mae'r gwaith yn symud yn ei flaen yn araf iawn.

Mae e-recriwtio yn cael ei ddefnyddio i fonitro statws hanfodol/dymunol y Gymraeg.

Bydd Adnoddau Dynol hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'r Archwiliad o Sgiliau Cymraeg.

Gweithredol

Mae staff Adnoddau Dynol yn ateb y ffôn yn Gymraeg. Mae negeseuon e-bost a deunydd darllen yn cydymffurfio â'r Safonau. Mae ffurflen damweiniau'r Cyngor a'r holl ganllawiau diweddar (o 2015 ymlaen) ar gyfer ysgolion ar gael yn Gymraeg.

Rydyn ni wedi cynnal archwiliad o nifer y siaradwyr Cymraeg yn Adnoddau Dynol ac o ganlyniad, mae grŵp ymarfer yr iaith Gymraeg wedi cael ei sefydlu a bydd amryw o aelodau o staff yn ymgymryd â chysiau datblygu medrau Cymraeg.

Mae grŵp craidd o staff wedi cael ei nodi i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Gwasanaethau Cyflogaeth

Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i wella'u Cymraeg llafar. Serch hynny, mae angen i'r gwasanaeth yma wella er mwyn ateb y galw posibl.

Mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei darparu ar gyfer ysgolion yn ddwyieithog gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau, a dogfennau ategol.

Pan fydd swyddi yn dod yn wag, bydd adolygiad o anghenion y gwasanaeth o ran y Gymraeg yn cael ei gynnal er mwyn asesu lefel y medr iaith Gymraeg sydd ei angen.

Twristiaeth

Yn y gwasanaeth yma, mae'r holl hysbysebion, nwyddau, y wefan ac ati, yn cydymffurfio â'r Safonau newydd. Caiff hyn ei drafod mewn cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd ac yn flaenoriaeth ar gyfer yr holl ymgyrchoedd rydyn ni'n eu datblygu.

Bu'r Swyddog Twristiaeth yn mynychu cwrs Cymraeg i Oedolion gyda'r nos yn 2007 (Cwrs Mynediad) a chwblhaodd y Cwrs Sylfaen yn 2009, sydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol o'r iaith Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r swyddog yn gallu darllen ac yn deall sgwrs. Mae'r Swyddog Twristiaeth wedi mynychu cyfarfodydd Rhondda Cynon Taf. Diben y cyfarfodydd yma oedd codi ymwybyddiaeth o'r Mesurau Cymraeg newydd a'u roi nhw ar waith. Roedd hyn yn cynnwys ateb y ffôn yn ddwyieithog, a chreu a defnyddio llofnod e-bost Cymraeg.

Os oes maes sy'n aneglur, bydd y Swyddog Twristiaeth yn cysylltu â'r Uned Cyfieithu am eglurhad.

Hyd yma, does dim cwynion wedi bod yn y Gwasanaeth yn ymwneud â diffyg Cymraeg, na defnydd amhriodol ohoni.

Mae'r holl hysbysebion, nwyddau, y wefan, negeseuon e-bost ac ati, yn cydymffurfio â'r Safonau newydd.

Cymraeg yw iaith gyntaf y Cydlynnydd Achlysuron amser llawn ac felly, mae modd i ni gynnig y gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r staff yn cael eu hannog i fynychu cyrsiau, ateb y ffôn yn ddwyieithog a bod â llofnod e-bost dwyieithog hefyd. Mae'r peiriant ateb canolog â neges ddwyieithog.

Mae ein harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn ein cronfa o Gynorthwyr Achlysuron Achlysurol, mae tri o siaradwyr Cymraeg.

Addysg i Oedolion

Mae 38% o'r staff yn siarad Cymraeg ar lefel dechreuwr, canolradd neu'n rhugl (o'i gymharu â 30% yn 2014/15). O'r rhain, mae 23% yn siaradwyr rhugl ac mae 15% yn ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn gallu ymdrin â gofynion cwsmeriaid yn Gymraeg os bydd angen. Mae pob aelod o staff yn gyfarwydd â gofynion y Safonau iaith Gymraeg ac fe ddylen nhw fod yn gwbl effro o'u cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 30 Medi 2015 (wedi'i ddiwygio yn dilyn apêl ym mis Medi 2016).

Mae medrau iaith Gymraeg nifer o staff ar y lefel uchaf fel na chaiff unrhyw waith ysgrifenedig ei gyfeirio at y garfan cyfieithu gan y gwasanaeth addysg i oedolion gan ei fod e i gyd yn cael ei wneud o fewn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol cyfrwng Cymraeg ac, ynghyd â llyfrgelloedd, yn hanfodol wrth alluogi'r grwpiau yma i gyfarfod a ffynnu.

Mae'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion, drwy ei ganolfan yng Ngarth Olwg, yn hwyluso:

Dosbarthiadau Cymraeg

Cylchoedd rhieni a phlantos bach cyfrwng Cymraeg

Dramâu a pherfformiadau theatr Cymraeg

Ystod eang o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifainc

Mae'r amgylchedd dwyieithog a'r diwylliant cadarnhaol sydd wedi'u creu yng Ngarth Olwg wedi bod yn hanfodol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Mae'r gwaith yma'n gynyddol bwysig gan y bydd yn ffurfio rhan bwysig o Strategaeth y Cyngor ar gyfer hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yn y sir fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o Reoliadau'r Iaith Gymraeg (2015).

Staff Addysg sydd ddim gweithio yn yr ysgolion

Mae penodi siaradwyr Cymraeg i swyddi penodol, wrth iddyn nhw ddod yn wag, wedi cryfhau medrau iaith mewn meysydd perthnasol, er enghraifft, mae penodi swyddog Hysbysiadau cosb benodedig wedi sicrhau bod modd ymdrin ag ymholiadau technegol a chyfreithiol yn y maes yma yn uniongyrchol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad leuenctid wedi sicrhau fod darpariaeth Gymraeg ar gael yn yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae gan bob agwedd ar y gwasanaeth yma siaradwr Cymraeg. Mae'r cynnwys newydd ar wefan Wicid erbyn hyn yn ddwyieithog, er bod cynnwys o'r gorffennol sydd dim ond ar gael yn Saesneg.

Fel roedd y sefyllfa ym mis Mehefin 2016, roedd 65 o staff addysg, sydd ddim yn gweithio yn yr ysgolion, yn rhugl yn y Gymraeg, a nododd 9 eu bod nhw'n 'eithaf rhugl'.

Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig sydd ar gael i'r cyhoedd yn cael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r holl wybodaeth ar-lein ar wefan y Cyngor, gan gynnwys ceisiadau ar-lein, ar gael yn ddwyieithog erbyn hyn.

Gwasanaeth y Llyfrgelloedd

Mae 24% o staff y llyfrgelloedd yn siarad Cymraeg ar lefel dechreuwr, canolradd neu rugl (sef cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol o ganlyniad i adleoli 2 siaradwyr Cymraeg rhugl). O ganlyniad, mae'r gwasanaeth yn gallu ymdrin â gofynion cwsmeriaid yn Gymraeg os bydd angen. Mewn llyfrgelloedd lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, mae system ar waith i sicrhau bod modd atgyfeirio unrhyw gwsmer sy'n ymweld â llyfrgell neu'n cysylltu â hi i siaradwr Cymraeg os oes angen. Mae pob aelod o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cael hyfforddiant ynglŷn ag Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol eleni. Mae hyn yn cynnwys staff achlysurol ac felly, dylai pob aelod o staff fod yn gwbl effro i'w cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor ar 30 Medi 2015 (wedi'i ddiwygio yn dilyn apêl ym mis Medi 2016). Bydd yr hyfforddiant yma'n ffurfio rhan o'r holl sesiynau cyflwyno/sefydlu yn y dyfodol a bydd unrhyw aelod o staff sy'n awyddus i wella'i fedrau iaith Gymraeg yn cael ei gynorthwyo i wneud hynny.

Mae'r llyfrgelloedd yn darparu:

Dosbarthiadau Cymraeg

Clybiau Llyfrau cyfrwng Cymraeg

Cylchoedd rhieni a phlantos bach cyfrwng Cymraeg

Cymraeg i Blant

Sesiynau ysgrifennu creadigol yn Gymraeg drwy weithio mewn partneriaeth

Gwaith gyda phartneriaid megis Cyngor Celfyddydau Cymru i hyrwyddo gweithgareddau fel Bardd Plant Cymru

Mae hyn yn golygu bod digon o gyfle i staff ymarfer eu Cymraeg yn eu llyfrgelloedd ac mae hyn yn cael ei annog gan reolwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg a thiworiaid sy'n defnyddio'u hadeiladau. O ganlyniad, mae amgylchedd meithringar fydd, gobeithio, yn cefnogi datblygu sgiliau staff.

Mae'r holl ddogfennau a phosteri cyhoeddus sy'n cael eu paratoi yn uniongyrchol gan y gwasanaeth, yn cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg y Cyngor, ac yn benodol, â'r rheoliadau statudol o dan Safonau'r Iaith Gymraeg a gafodd eu cyflwyno yn 2015. Mae posterï a thafleuni byr erbyn hyn yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg yn fewnol ac mae dogfennau hwy yn cael eu hanfon at y Garfan Cyfieithu.

RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

WELSH LANGUAGE CABINET STEERING GROUP

19TH JUNE 2017

**WELSH LANGUAGE STANDARDS COMPLIANCE REPORT
TO THE WELSH LANGUAGE COMMISSIONER
2016 – 2017**

**REPORT OF THE DIRECTOR OF EDUCATION AND LIFELONG
LEARNING IN DISCUSSION WITH THE RELEVANT PORTFOLIO HOLDER
CLLR G. HOPKINS**

AUTHORS: Wendy Edwards, Head of Community Learning (01443 744111)
Steffan Gealy, Service Manager, Welsh Language Services
(01443 570002)

1. PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1 The purpose of the report is to provide the Welsh Language Steering Group with a copy of the Welsh Language Standards Compliance Report 2016 – 2017.

2. RECOMMENDATIONS

